**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Bwrdd Pensiwn Lleol

**Guildhall, Swansea**

**Dydd Iau, 25 Gorffennaf 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol:**

**Cynrychiolwyr Cyflogwr**
T M White - Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd A Lockyer - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol**

| | |
|---|---|
| D White | Dinas a Sir Abertawe |
| I Guy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Carolyn Isaac | Cyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
D Mackerras

---

**1 Ethol cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019-2020.**

**Penderfynwyd** ethol Ian Guy (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019-2020.

**(Bu Ian Guy yn llywyddu)**

**2 Ethol is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019-2020.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd Mike White (Dinas a Sir Abertawe) yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019-2020.

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

I Guy – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

Y Cynghorydd A Lockyer – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol. Mae fy ngwraig a'm mab hefyd yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

D White – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

Y Cynghorydd T M White - yr agenda yn ei chyfanrwydd - Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae fy merch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Swyddogion:**

K Cobb – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

C Isaac – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse - yr agenda yn ei chyfanrwydd - Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chofnod Rhif 6 - Datganiad o Gyfrifon Drafft 2018/19 - Clerc Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf - personol.

## 4 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2019 fel cofnod cywir.

Nodwyd bod yr wybodaeth ynghylch enwebiadau grant marwolaeth wedi'i chynnwys yng nghylchlythyr staff Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

## 5 Cronfa Olrhain Mynegai Carbon Isel - Diweddariad.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn diweddaru'r pwyllgor ar elfen drosglwyddo carbon isel y Polisi Llywodraethu Amgylcheddol a Chymdeithasol (LlACh).

Ychwanegwyd bod y cyngor wedi cymryd nifer o gamau i ddeall effaith materion LlACh ar y gronfa ac amlinellwyd y rhain yn yr adroddiad.

Amlinellwyd, fel rhan o waith y gronfa, fod y pwyllgor wedi comisiynu MSCI i ddadansoddi amlygiad carbon y portffolio. Roedd gan MSCI wybodaeth am amlygiad carbon pob stoc fyd-eang ac roedd yn gallu cymharu amlygiad carbon daliannau'r gronfa ag amrywiaeth o feincnodau cyfeirio. Dangosodd ganlyniadau'r astudiaeth fod asedau carbon y portffolio presennol 9% dan bwysau. Cytunodd y pwyllgor i dargedu sefyllfa tan bwysau 50% erbyn 2022 yn ei bolisi LlACh a'r ffordd fwyaf effeithlon o ran gweithredu i ddechrau cyrraedd ei darged oedd trwy fynegai

goddefol carbon isel. Roedd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yn flaenorol wedi cymeradwyo trosglwyddo ei asedau ecwiti olrhain mynegai cyfalafiad wedi'i bwysoli marchnad Blackrock gwerth tua £0.5 biliwn i gronfa olrhain Mynegai Carbon Isel Blackrock. Byddai hyn yn cyfrannu'n sylweddol at fodloni ei ymrwymiad i leihau ôl-troed carbon y gronfa 50% erbyn 2022. Dechreuwyd trosglwyddo'r asedau hynny ar 3 Gorffennaf 2019 a byddai'r cyfan wedi'i drosglwyddo erbyn diwedd y mis.

Yn ogystal, yng nghyfarfod Cyngor Abertawe a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2019, cymeradwywyd hysbysiad o gynnig a oedd yn datgan argyfwng hinsawdd. Yn yr hysbysiad o gynnig, cyfeiriwyd at waith arloesol ac ymrwymiad Pwyllgor y Gronfa Bensiwn i leihau ei ôl-troed carbon. Roedd Atodiad 1 o'r adroddiad yn darparu'r Polisi Llywodraethu Amgylcheddol a Chymdeithasol a luniwyd o ganlyniad i hyfforddiant cychwynnol, gwybodaeth bellach a gasglwyd, sylwadau a dderbyniwyd gan grwpiau â diddordeb a thrafodaeth a phroses gwneud penderfyniadau'r pwyllgor yn dilyn hyn.

Gwnaeth y pwyllgor sylw ar y cynnydd cadarnhaol a wnaed a'r uchelgais i leihau 50%o ôl-troed carbon y gronfa erbyn 2022, wrth sicrhau enillion buddsoddiad ar gyfer aelodau'r gronfa.

Cyflwynodd y Bwrdd sylwadau ar y materion canlynol: -

- Y cynnydd cadarnhaol a wnaed a'r uchelgais i leihau 50% o ôl-troed carbon y gronfa erbyn 2022, wrth sicrhau enillion priodol ar gyfer aelodau'r gronfa;
- Ymgysylltu â chwmnïau a rhoi pwysau arnynt i newid eu polisïau;
- Herio gwledydd nad ydynt yn cydnabod newid yn yr hinsawdd;
- Cynnwys y Rhybudd o Gynnig a basiwyd gan Gyngor Abertawe

**6 Polisi Buddsoddiad Cyfrifol drafft Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).**

Darparodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn gofyn am nodi'r gymeradwyaeth ar gyfer Polisi Buddsoddiad Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru Pwyllgor y Gronfa Bensiwn.

Cydnabuwyd bod gan PPC bolisi BC sydd wedi'i ddiffinio'n glir, sy'n arfer gorau, ac y gellid ei roi ar waith ar draws ei gronfeydd. Nodwyd bod pob cronfa aelod o PPC ar gamau gwahanol o ran ystyried yr agenda LlAC/BC gyfan. Felly lluniwyd polisi PPC gyda golwg ar sicrhau i beidio â rhwymo cronfa unigol i ymrwymiad cyfyngol neu rwymol. Cynhwysir Atodiad 1 ym Mholisi BC y PPC.

Ychwanegwyd bod Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wrthi'n perswadio cronfeydd eraill yng Nghymru i fabwysiadu'r polisi.

Nodwyd hefyd fod y Gronfa Bensiwn wedi'i henwebu ar gyfer Gwobr Ymagwedd Orau at Fuddsoddi'n Gynaliadwy y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 7 Cynllun Archwilio 2019 - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro Gynllun Archwilio 2019 i Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a oedd yn nodi'r gwaith archwilio arfaethedig, pryd y byddai'n cael ei wneud, faint byddai'n ei gostio a phwy fyddai'n ei wneud.

Mae Atodiad 1 yn nodi cyfrifoldebau'r archwilydd, ynghyd â rhai'r rheolwyr a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.. Roedd Arddangosyn 1 yn darparu tri cham yr ymagwedd archwilio; roedd Arddangosyn 2 yn amlinellu'r risgiau yr ystyriwyd eu bod yn sylweddol yr oedd angen ystyriaeth arbennig arnynt yn yr archwiliad. Nodwyd y ffi archwilio arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 3 a darparwyd yr amserlen ar gyfer yr archwiliadau arfaethedig yn Arddangosyn 5.

Trafododd y Bwrdd brisiadau ecwiti preifat a oedd yn amlygu y dibynnir yn y dyfodol ar amcangyfrifon yn hytrach na'r prisiadau gwirioneddol.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 8 Datganiad o Gyfrifon Drafft 2018/19.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn gofyn bod y Datganiad o Gyfrifon Drafft ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2018/19 yn cael ei nodi.

Ychwanegwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi dechrau eu harchwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon Drafft Cronfa Bensiwn 2018/19 yn unol â'u cynllun archwilio a gyflwynwyd i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn yn gynharach yn y flwyddyn. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2019. Darparwyd Datganiad o Gyfrifon Drafft 2018/19 yn Atodiad 1.

Trafododd y bwrdd y canlynol: -

- Yr elw cadarnhaol.
- Rhaglen lleihau costau
- Cost isel llywodraethu

## 9 Cais i'r Corff Derbyn - The Wallich.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn nodi cymeradwyo cais y corff derbyn ar gyfer The Wallich.

Amlinellwyd, yn dilyn ymarfer adolygu gwasanaethau blaenorol a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT), penodwyd Tai Tarian (Cartrefi Castell-nedd Port Talbot gynt) i reoli gwasanaethau tai ar ran CBSCNPT. Roedd elfen o'r gwasanaeth hwnnw a oedd yn cefnogi'r rheini yr oedd digartrefedd yn effeithio arnynt, wedi'i aildendro'n dilyn hyn, a phenodwyd The Wallich am gyfnod o 3 blynedd.

Roedd The Wallich, sefydliad nid er elw gwirioneddol â statws elusen eithriedig gymeradwy, wedi bod yn darparu gwasanaethau llety a chefnogaeth i bobl ddigartref

ers 1978. Dechreuodd y contract am wasanaethau ar 1 Gorffennaf 2017 am 3 blynedd.

Dan amodau'r contract, bydd y gweithlu cymwys presennol yn cael ei drosglwyddo dan drefniadau TUPE o'r cyflogwr presennol, Tai Tarian, i The Wallich. Er mwyn cadw hawliau pensiwn y staff a drosglwyddir, cynigiwyd rhoi statws Corff Cydnabyddedig i The Wallich yng Nghronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe. Cynigiwyd rhoi'r cytundeb derbyn ar sail cynllun caeëdig, a fydd yn cynnwys y staff a enwir yn unig yn atodlen 1 y cytundeb derbyn.

Mae angen i'r cyflogwr noddi, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sicrhau'r bond indemniad angenrheidiol neu'r warant cyflogwr sy'n noddi ar y cytundeb derbyn. Bydd yr awdurdod gweinyddu hefyd yn cynnal asesiad risg priodol o'r corff a dderbynnir, The Wallich.

Trafododd y Bwrdd yr oedi yn y broses am nad oedd pensiynau'n rhan o drafodaethau contractau a phwysigrwydd gwarchod staff yn y dyfodol.

## 10 Toriadau.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion toriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Roedd Atodiad A yn darparu manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod blaenorol Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Mawrth 2019, gan gynnwys gofyniad newydd mewn perthynas ag ad-daliadau clo. Amlygwyd manylion y toriadau hynny a'r camau gweithredu a gymerwyd gan y rheolwyr.

Trafododd y bwrdd fanylion y toriadau a restrwyd, yn enwedig costau olrhain unigolion, sut mae elfennau pob toriad y tu hwnt i reolaeth y gronfa a'r camau gweithredu a gymerwyd i leddfu problemau.

## 11 Ymgynghoriadau Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar Gyfyngiadau Tâl Gadael a Chylch Prisio/Risg Cyflogwyr.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ôl-dremiol ar gyfer yr ymateb i Ymgynghoriad Trysorlys EM a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ar y terfyn ar Daliadau Ymadael, y Cylch Gwerthuso a Diwygio Gwerthuso.

Amlinellwyd bod y Llywodraeth yn bwriadu rhoi terfyn diamod o £95m ar daliadau ymadael yn y sector cyhoeddus a'i bod yn ceisio ymgynghoriad ar y rheoliadau i'w roi ar waith. Darparwyd yr offeryn statudol drafft a'r ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.

Roedd diffiniad y Llywodraeth o daliad ymadael yn cynnwys unrhyw gyfraniadau pensiwn ychwanegol y mae eu hangen i alluogi mynediad cynnar heb leihad i fuddion aelod pan fônt yn gorfod ymddeol yn gynnar ar ôl colli swydd yn 55 oed neu'n hŷn. I egluro hyn, byddai'r taliad ymadael yn cynnwys colli swydd (aelod yn

derbyn taliad mewn arian parod) ac unrhyw gyfraniadau pensiwn ychwanegol (y gronfa bensiwn sy'n derbyn y taliad). Byddai'r terfyn mympwyol o £95m yn cynnwys gweithwyr y sector cyhoeddus hir eu gwasanaeth sy'n derbyn tâl cymedrol a nifer o newidynnau ar hyd y ffordd fel a amlygir yn yr ymateb arfaethedig.

Roedd gweddill yr ymateb yn nodi materion technegol a oedd yn ymwneud ag ym mha ffordd y byddai angen asesu'r 2 elfen o derfyn y tâl ymadael ac ymdrin â nhw, ynghyd â rhai o wendidau'r cynnig. Cymeradwywyd yr ymateb gan Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 2 Gorffennaf 2019.

Yn ogystal, cyhoeddodd MHCLG ymgynghoriad ar gynigion i amrywio'r cylch prisio 3 blynedd presennol, cynigion ynghylch taliadau ymadael a diogelu hawliau aelodaeth gweithwyr rhai cyflogwyr.  Roedd actiwari penodedig y gronfa wedi rhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad a ddarparwyd yn Atodiad 2.

Trafododd y bwrdd y canlynol: -

- Y sefyllfa annheg lle gallai rhai achosion bach effeithio ar lawer o bosib;
- Y Gronfa Bensiwn yn colli aelodaeth o ganlyniad o bosib;
- Cylchoedd prisio.

## 12 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 13 PPC - Diweddariad.

Darparodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor am gynnydd rhannu asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r cynnydd a'r adroddiad diweddaru  a ddarparwyd gan weithredwr Cynllun Contractiol Awdurdodedig (CCA) Link Asset Services.

Cyfeiriwyd yn y diweddariad at y bwriad i gymeradwyo cronfa incwm sefydlog cyfran 3 gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol FCA yn ystod chwarter 4 2019.

Amlygodd y Cadeirydd yr angen i Bartneriaeth Pensiwn Cymru barhau i wella cyfathrebiadau â Byrddau Pensiwn Lleol drwy eu Cadeiryddion.

**14 Tai Preswyl fel Dosbarth Asedau.**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am benderfyniad Pwyllgor y Gronfa Bensiwn i gymeradwyo Tai Preswyl fel dosbarth asedau buddsoddi.

Amlinellwyd bod y Gronfa Bensiwn ar hyn o bryd yn buddsoddi mewn ystod eang o ddosbarthiadau asedau, gan gynnwys ecwitïau, bondiau, eiddo, isadeiledd, ecwiti preifat, cronfeydd rhagfantoli a dyled breifat.  Fodd bynnag, nid oedd ganddo ddosbarthiad tai preswyl.

Ychwanegwyd bod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wedi derbyn diwrnod o hyfforddiant ar y dosbarth asedau ym mis Chwefror 2019 a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan reolwyr sy'n arbenigo yn sector rhentu'r farchnad, tai cymdeithasol, tai fforddiadwy a thai cefnogi'r digartref fel dosbarthiadau asedau y gellir buddsoddi ynddynt.

Roedd Atodiad 1 yn darparu crynodeb o nodweddion a buddion mabwysiadu tai preswyl fel dosbarth asedau.  Cymeradwyodd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn yr adroddiad yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019.

Amlygodd y Bwrdd y penderfyniad cadarnhaol a'r cyfle i fod o fudd i'r gymuned leol.

**15 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi.**

Rhoddodd y Dirprwy Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys gwerthusiad o asedau a pherfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019.

Yn Atodiad 1 roedd crynodebau buddsoddi chwarterol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2019.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.23 pm

**Chair**